Dolen LESOTHO CYMRU

Taith

Meddwl am y Dyfodol -

Dysgu drwy gysylltiadau rhyngwladol ymhen 40 a 200 mlynedd

Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau (Blwyddyn 7-9)

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad	03
Ein cefndir	04-05
Diben yr Adnodd	06-07
Sut i ddefnyddio'r adnodd	08
Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau	
Crynodeb o weithgareddau	09
Cynlluniau Gwersi	10-15
Adnoddau	16-29
Adnoddau	30

Cydnabyddiaethau

Wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â Taith, Llywodraeth Cymru a Dolen Cymru Lesotho, mae'r adnodd hwn wedi'i seilio ar leisiau a phrofiadau bywyd cymunedau, addysgwyr, a phobl ifanc yng Nghymru a Lesotho.

© Taith & Dolen Cymru Lesotho |Caniateir defnydd addysgol gyda chydnabyddiaeth

Croeso i

Meddwl am y Dyfodol

Adnoddau Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau

Mae'r adnodd hwn yn helpu myfyrwyr i ystyried y thema **Mwy o Debygrwyddna Gwahaniaethau** drwy hunaniaeth, perthyn, tegwch a gwerthoedd.

Mae'n meithrin hyder o ran deall sut mae cymunedau yn gwneud penderfyniadau a sut mae'r syniad o berthyn yn cael ei fynegi yng Nghymru a Lesotho.

Ein Cefndir

Dolen Cymru yw cyswllt cyfeillgarwch rhyngwladol mwyaf hirsefydlog Cymru. Ers 1985, mae Dolen Cymru wedi datblygu perthnasoedd rhwng Cymru a Lesotho drwy brosiectau addysg, diwylliant, iaith, iechyd a chymuned.

Fel mae'r enw yn ei awgrymu, mae cysylltiad wrth galon popeth a wnânt.

Ers dros ddeugain mlynedd, mae Dolen Cymru wedi:

- helpu athrawon yng Nghymru a Lesotho i ddysgu gan ei gilydd
- cefnogi partneriaethau ysgol a chyfnewidiadau Dosbarth
- datblygu adnoddau sy'n dathlu gwerthoedd a hanesion cyffredin
- creu cyfleoedd i bobl ifanc fagu hyder a datblygu ymwybyddiaeth o'r byd
- cryfhau cysylltiadau cymunedol drwy gyfeillgarwch, parch a thegwch.

Meddwl am y Dyfodol

Pam Cymru ↔ Lesotho?

Er bod Cymru a Lesotho ynlleoedd gwahanol iawn, mae llawer o debygrwydd:

- hunaniaeth ddiwylliannol gryf
- ieithoedd a thraddodiadau cyfoethog
- ymdeimlad dwfn o gymuned a pherthyn
- hanes o wydnwch ac undod
- wrth eu bodd â cherddoriaeth, adrodd straeon a'r dirwedd

Mae gwaith Dolen Cymru yn dod â'r elfennau cyffredin hyn ynghyd fel y gall plant ddysgu:

"Mae einhunaniaeth yn cael ei siapio gan y lleoedd yr ydym yn perthyn iddynt, y straeon yr ydym yn eu rhannu, a'r gwerthoedd sy'n llywio ein ffordd o fyw."

Ein nod mewn addysg

Mae Dolen Cymru yncefnogi athrawon drwy ddarparu adnoddau ymarferol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm sy'n:

✓ **dathlu hunaniaeth, iaith a diwylliant**
✓ **hyrwyddo tegwch, parch a chynhwysiant**
✓ **helpu plant i wneud cysylltiadau rhwng Cymru a Lesotho**
✓ **meithrin hyder a chwilfrydedd**
✓ **annog dinasyddiaeth fyd-eang a dealltwriaeth o wrth-hiliaeth**

Mae'r adnodd hwn yn rhan o'r weledigaeth gyffredin honno.

Diben yr Adnodd

Mae'r adnodd hwn yn canolbwyntio ar thema **Mwy o Debygrwyddna Gwahaniaethau**, wrth ystyried hunaniaeth, cynefin (perthyn), tegwch, a gwerthoedd cymunedol hefyd. Fe'i cynlluniwyd drwy lens gwrth-hiliol ac mae'n cynnwys cymhwysedd digidol ystyrlon drwy gydweithio ag ysgol bartner yn Lesotho.

Mae’r gweithgareddau yn cefnogi meysydd allweddol Cwricwlwm Cymru ar draws y Dyniaethau, leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Celfyddydau Mynegiadol a’r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, helpu disgyblion i ddeall y gorffennol wrth fyfyrio ar bwy ydynt heddiw.

Gwerthoedd Craidd

Cysylltiad Diwylliannol

Mae’r adnodd hwn yn gwella dealltwriaeth disgyblion o’u hunaniaeth eu hunain wrth ddatblygu cysylltiadau ystyrlon rhwng Cymru a Lesotho. Mae’n hyrwyddo chwilfrydedd, parch a balchder mewn treftadaeth ddiwylliannol.

Cymuned

Mae’r gweithgareddau yn annog tegwch, empathi a gwneud penderfyniadau ar sail gwerthoedd. Mae disgyblion yn dysgu am sut mae cymunedau yn y gorffennol a'r presennol yn gweithio i gadw pobl yn ddiogel, eu cynnwys a'u trin â pharch.

Diben yr Adnodd

Pryd i ddefnyddio Padlet

Mae Padlet a rennir rhwng eich ysgol a'ch dosbarth partner yn Lesotho.

Sganiwch y cod QR isod i gael mynediad at y Padlet a gwneud postiad yn y golofn gywir.

Gall athrawon arddangos postiadau'r ysgol bartne ri'r dosbarth fel y gall disgyblion rannu syniadau, cyfnewid ffyrdd o feddwl a dysgu gan ei gilydd.

Padlet

Gallwch ddefnyddio Padlet i rannu myfyrdodau'ch myfyrwyr.

Beth i'wuwchlwytho

Diagram, **Poster a neu Faner**, **Cerdyn gadael** a **stribed comig**

Dylai disgyblion rannu syniadau ynghylch sut gallai bywyd fod yn decach neu'n well yng Nghymru neu Lesotho yn y dyfodol.

Sut i ddefnyddio'r adnoddau


Resource 5

Discussion Situation

Share your thoughts on the following scenarios based on the lesson.

Scenario 1:

A group of young people are unhappy with a rule that affects them. They share their views with the adults who make decisions. The adults listen and explain that the rule is part of a wider system, so any change takes time and involves more than one decision-maker.

22

Gellir cyflwyno'r pecyn hwn fel dilyniant llawn o wersi, fel sesiynau unigol, neu ochryn ochr â thestunau ategol.

Mae pob pwnc yn cynnwys:

- Amcan ddysgu clir
- Canllaw addysgu cam wrth gam
- Syniadau gwahaniaethu a dilyniant
- Adnoddau gweithgareddau disgyblion
- Tasg i fyfyrio neu i gloi

Gall athrawon ddilyn y drefn a awgrymir neu ddewis gweithgareddau i gyd-fynd â'u helfen gwricwlwm dan sylwa'r amser sydd ar gael.


Language

Resource 1

Scenario Cards

Print the flashcards and pupils hold up A or B to show which option they think is fairest.

A

B

18

Mae'r codau QR yn y pecyn hwn yn mynd â chi'n syth at y deunyddiau sydd eu hangen arnoch i gyflwyno pob gwers yn hyderus.

Testunau Ategol

Darperir testunau ategol i athrawon allu cyfeirio atynt i wella'u gwybodaeth ynghylch pwnc ac nid ydynt wedi'u bwriadu i'w defnyddio'n uniongyrchol gan ddisgyblion.

Crynodeb o weithgareddau

Mae ein rhaglen yn cynnwys

Mae disgyblion yn rhannu eu gwaith â dosbarth partner yn Lesotho drwy uwchlwytho darluniau, capsiynau neu negeseuon llafar ynghylch eu cartref, eu hysgol neu eu symbolau. Mae gweld postiadau ei gilydd yn helpu disgyblion i ddysgu am hunaniaeth a pherthyn o safbwynt byd-eang, sy'n cefnogi dull gwrth-hiliol wedi'i wreiddio mewn cysylltiad lle mae plant Cymru a Lesotho'n dathlu eu diwylliannau a'u gwerthoedd mewn modd cyfartal.



Iaith

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu

Ystyried sut mae iaith yn helpu plant deimlo'n ddiogel, teimlo bod eu llais yn cael ei glywed a'u bod yn cael eu cynnwys yng Nghymru a Lesotho, a chymharu sut gall cyfathrebu gefnogi tegwch ac ymdeimlad o berthyn.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i siapio hunaniaeth heddiw.

Dechrau Arni

Dychmygwch yfory fod pob rheol , llythyr, a gwasanaeth ysgol dim ond ar gael mewn iaith nad yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ei siarad.

Cwestiwn
Beth fyddai'n newid gyntaf?
Opsiynau:

- Dysgu
- Perthyn
- Ymddygiad
- Dim byd

Gweithgaredd 1

Mae myfyrwyr yn darllen:

- Un darn Cymraeg
- Un darn Lesotho/Sesotho

Anodi yn unig ar gyfer:

- Pwy sy'n siarad
- Pwy sy'n pernderfynu
- Pa iaith sy'n cael ei chanoli
- Pa iaith sydd ar goll neu ddim mor amlwg

Cwestiynau

- Yn nwylo pwy mae'r pŵer yn y testun hwn?
- Beth y mae disgwyl fydd yn digwydd pan caiff iaith ei chydnabod?
- Beth sydd ddim yn cael ei ddweud?

Gweithgaredd 2

Tasg:
Darllenwch y senario iaith. Dewiswch yr ymateb sy'n trin pobl yn deg, ni waeth ym mhle maen nhw'n byw.

Dilyniant

- B7: Dewiswch A neu B
- B8: Eglurwch sut mae eich dewis yn deg
- B9:Eglurwch sut mae eich penderfyniad yn cefnogi, cydsafiad nid elusen

Defnyddiwch os: rydych eisiau'r fframio cymharol fod yn amlwg.
Adnodd 1 a 2, Tud. 8-19



Iaith

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried sut mae iaith yn helpu plant deimlo'n ddiogel, teimlo bod eu llais yn cael ei glywed a'u bod yn cael eu cynnwys yng Nghymru a Lesotho, a chymharu sut gall cyfathrebu gefnogi tegwch ac ymdeimlad o berthyn.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i siapio hunaniaeth heddiw.

Gweithgaredd 3

Tasg

Darllenwch bob senario iaith. Trefnwch ef o dan y pennawd y mae'n ffitio orau. (Meddyliwch am bwy sy'n cael lleisio eu barn a phwy sy'n gwneud penderfyniadau.)

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Rhowch bob senario o dan un pennawd.
- Blwyddyn 8: Dewiswch un senario ac esboniwch sut mae iaith yn effeithio ar degwch neu berthyn.
- Blwyddyn 9: Eglurwch a yw'r senario'n newid systemau (rheolau neu fynediad) neu fwriadau yn unig

Adnodd 3, tud. 20, Adnodd 4tud. 21

Gweithgaredd 4

Tasg:

Tynnwch lun diagram syml gydag un lle yn y canol (ysgol, cartref, ar-lein, neu gymuned).

O'i amgylch, dangoswch sut mae iaith yn cael ei defnyddio a pham fod hynny'n bwysig.

Dilyniant

- B7: Labelwch y lle a rhowch un esiampl o ddefnydd iaith.
- B8: Ychwanegwch un esiampl o sut mae iaith yn helpu pobl i gymryd rhan neu berthyn.
- B9: Ychwanegwch nodyn yn egluro sut mae'r testunau yn dangos heriau tebyg yng Nghymru a Lesotho.

CerdynGorffenMeddwl am y Dyfodol

Ysgogiad:

Sut gall cymunedau warchod a chryfhau ieithoedd plant heb dawelu eu lleisiau?

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Ysgrifennwch un syniad ynghylch sut y caiff ieithoedd plant eu cefnogi.
- Blwyddyn 8: Ysgrifennwch un syniad ac eglurwch sut mae'n cefnogi tegwch neu berthyn.
- Blwyddyn 9: Ysgrifennwch un syniad ac eglurwch sut mae'n cryfhau cyfranogiad neu lais plant, gan ei gysylltu â hunaniaeth neu bŵer.

Annibyniaeth

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Dadansoddi sut mae twristiaeth yn effeithio ar gymunedau yng Nghymru a Lesotho, a gwerthuso a yw penderfyniadau am dwristiaeth yn deg ac yn gynhwysol.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i siapio hunaniaeth heddiw.

Dechrau Arni

Ysgogiad:
Trafodwch mewn grwpiau a meddyliwch am sefyllfa yn yr ysgol, yn y cartref, neu yn y gymuned lle nad oedd pobl yn cytuno.

Ffocws y drafodaeth:

- Pwy sydd pia'r penderfyniad terfynol?
- Sut gafodd y penderfyniad hwnnw ei dderbyn neu ei herio?

Gweithgaredd 1

Tasg:
Mae myfyrwyr yn darllen dau destun ac yn penderfynu pwy sy'n gwneud penderfyniadau a phwy sy'n cael lleisio eu barn. Yna, mae'r athro'n darllen un sefyllfa fer yn uchel. Mae disgyblion yn trafod sut mae annibyniaeth yn gweithio yn y sefyllfa honno.

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Penderfynwch p'un a yw'r bobl yn y sefyllfa yn annibynnol ai peidio, a rhoi un rheswm.
- Blwyddyn 8: Eglurwch yn nwylo pwy mae'r pŵer yn y sefyllfa a pham mae hynny'n bwysig o ran annibyniaeth.
- Blwyddyn 9: Eglurwch sut mae annibyniaeth yn dibynnu ar systemau (rheolau, cyfreithiau, llywodraethau, sefydliadau), nid unigolion yn unig, a pham y gall annibyniaeth edrych yn wahanol mewn gwahanol wledydd hyd yn oed pan fo hawliau tebyg yn bodoli.

Adnodd 5tud.22

Gweithgaredd 2

Tasg:
Mae disgyblion yn darllen pob datganiad o'r adnodd datganiadau ac yn ei osod ar y grid i ddangos p'un a yw'n cefnogi annibyniaeth neu'n cyfyngu ar annibyniaeth, yn seiliedig ar bwy sy'n gwneud y penderfyniad a phwy sy'n cael lleisio eu barn. Penawdau grid:

- Mae pobl yn penderfynu drostynt eu hunain
- Mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ran pobl

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Rhowch bob datganiad yn y golofn yr ydych yn credu sydd fwyaf addas.
- Blwyddyn 8: Dewiswch un datganiad ac esboniwch pam ei fod yn perthyn yno, gan ganolbwyntio ar bwy sydd â'r pŵer a phwy sy'n cael lleisio eu barn.
- Blwyddyn 9: Dewiswch un datganiad lle mae penderfyniadau yn cael eu gwneud ar ran pobl ac eglurwch sut mae hyn yn cyfyngu ar annibynniaeth, gan gysylltu'ch ateb â llais, cyfranogiad, neu hawliau, a gan ddefnyddio'r testun. **Adnoddau 6 a 7, tud. 23 a 24**

Annibyniaeth

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Dadansoddi sut mae twristiaeth yn effeithio ar gymunedau yng Nghymru a Lesotho, a gwerthuso a yw penderfyniadau am dwristiaeth yn deg ac yn gynhwysol.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i siapio hunaniaeth heddiw.

Gweithgaredd 3

Tasg

Crëwch boster yn dangos annibynniaeth mewn bywyd bob dydd (ysgol, cymuned, ar-lein, iechyd, neu helpu eraill).

Dangoswch pwy sy'n penderfynu, llais pwy sy'n cael ei glywed, a pha wahaniaeth mae hyn yn ei wneud.

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Dangoswch un esiampl a labelwch pwy sy'n penderfynu a phwy sy'n cael lleisio eu barn.
- Blwyddyn 8: Eglurwch pam fod cael lleisio'ch barn yn bwysig.
- Blwyddyn 9: Eglurwch sut mae annibynniaeth yn dibynnu ar reolau neu systemau, nid caredigrwydd yn unig, a pham ei fod yn bwysig mewn gwahanol leoedd.

Gweithgaredd 4

Mae disgyblion yn dylunio baner newydd sy'n cynrychioli gwir ystyr annibynniaeth. Mae'n rhai i'r faner gynnwys symbolau ar gyfer: Gwneud penderfyniadau (pwy sy'n penderfynu), Llais (pwy sy'n cael eu clywed), Rheolaeth (cyfreithiau, arian, tir, iaith) a Pherthyn (pwy sy'n teimlo eu bod yn cael eu cynnwys)

Gallant ddefnyddio lliwiau, siapiau, eiconau, neu batrymau.

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Dyluniwch faner gyda 2 symbol ac esboniwch un.
- Blwyddyn 8: Dyluniwch faner yn dangos bob un o'r pedwar syniad, gyda labeli byr.
- Blwyddyn 9: Dyluniwch faner ac ychwanegwch ddisgrifiad: "Mae'r faner hon yn dangos fod annibynniaeth yn gweithio pan..."

Cerdyn Gorffen Meddwl am y Dyfodol

- Blwyddyn 7: Sut gall parchu hawliau pobl effeithio ar sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud?
- Blwyddyn 8: Sut mae parchu hawliau pobl yn cefnogi tegwch a pherthyn mewn cymunedau?
- Blwyddyn 9: Sut gall enghreifftiau o Gymru a Lesotho ein helpu i werthuso sut mae tegwch a pherthyn yn edrych heddiw?

Padlet

Padlet ar y cyd rhwng eich ysgol a dosbarth partner yn Lesotho. Defnyddiwch y **DDOLEN** i gael mynediad at ein padlet a chwiliwch am y golofn blynyddoedd cynnar. Gallwch uwchlwytho darluniau gyda neu heb ddisgrifiad byw neu fyfyrdod uwchlwytho neu nodyn llais. Gall athrawon ddangos Padlet yr ysgol bartner i'r dosbarth, gan alluogi disgyblion i gyfnewid gwaith, rhannu syniadau a dysgu gan ei gilydd.

Twristiaeth

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried pwy sy'n elwa o dwristiaeth a sut gall cymunedau ei wneud yn fwy cynaliadwy a theg.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i siapio hunaniaeth heddiw.

Dechrau Arni

Ysgogiad:
Pan mae pobl yn ymweld â lle, sut allant gefnogi'r gymuned mewn ffyrdd teg?

Dilyniant

- B7: Disgrifiwch un esiampl o'r testun lle mae ymwelwyr a phobl leol wedi gweithio gyda'i gilydd.
- B8: Eglurwch pam fod cydweithio'n bwysicach na dim ond "helpu".
- B9: Eglurwch sut mae cydweithio'n wahanol i achub, gan ddefnyddio syniadau o'r testun ynghylch pŵer, llais, neu wneud penderfyniadau.

Gweithgaredd 1

Tasg:
Mae'r athro'n darllen y testunau twristiaeth o Gymru a Lesotho. Mae disgyblion yn penderfynu p'un a yw sefyllfa yn debyg neu'n wahanol, yn seiliedig ar bwy sy'n gwneud y penderfyniad a phwy sy'n elwa. Mae disgyblion yn ateb drwy drafod neu nodiadau cryno.

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Penderfynwch p'un a yw'r esiampl yn debyg neu'n wahanol.
- Blwyddyn 8: Eglurwch un tebygrwydd o ran sut mae twristiaeth yn gweithio yn y ddau le.
- Blwyddyn 9: Eglurwch sut gall pŵer a gwneud penderfyniadau mewn twristiaeth greu canlyniadau tebyg yng Nghymru a Lesotho, hyd yn oed mewn lleoliadau gwahanol iawn.

Gweithgaredd 2

Tasg:
Mae disgyblion yn ystyried llinellau dethol o hysbysebion twristiaeth, sloganau, neu ddisgrifiadau (o Gymru a Lesotho) ac yn nodi ble mae'r iaith yn siarad am gymunedau yn hytrach na siarad gyda nhw, yna'n awgrymu sut y gellid ei hail-eirio i adlewyrchu llais lleol a budd cyffredin.

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Amlygwch un llinell a dywedwch beth mae'r neges dwristiaeth yn ceisio ei gwneud (e.e. denu ymwelwyr, gwerthu lle).
- Blwyddyn 8: Nodwch linell sy'n siarad ar ran pobl leol ac eglurwch pam y gall hyn fod yn broblem.
- Blwyddyn 9: Ail-ysgrifennwch un llinell i ddangos llais lleol neu bartneriaeth, ac esboniwch sut mae newid yr iaith y newid pwy sydd â phŵer yn y stori.

tud. 25 a 26

Twristiaeth

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried pwy sy'n elwa o dwristiaeth a sut gall cymunedau ei wneud yn fwy cynaliadwy a theg.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i siapio hunaniaeth heddiw.

Gweithgaredd 4

Tasg: Rhowch bedwar arwydd yn yr ystafell (neu dywedwch yr opsiynau yn unig):

- Tebyg iawn
- Tebyg iawn ar y cyfan
- Gwahanol ar y cyfan
- Gwahanol iawn

Mae'r athro'n darllen sefyllfa dwristiaeth yn uchel. Mae'r myfyrwyr yn symud i gornel. Yna gofynnwch:

- "Pam wnaethoch chi ddewis y gornel honno?"
- "A yw hyn am arian, pŵer neu lais?"

Dilyniant

- B7: Dewiswch gornel.
- B8: Eglurwch un rheswm yn uchel.
- B9: Heriwch resymeg cornel arall yn barchus

Adnodd 8 tud 27

Cerdyn Gorffen Meddwl am y Dyfodol

Sut gall twristiaeth weithio'n well ar gyfer cymunedau lleol yn y dyfodol?

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Enwch un ffordd mae twristiaid neu ymwelwyr yn parchu lleoedd a phobl leol.
- Blwyddyn 8: Eglurwch sut mae gwrando ar bobl leol yn gwneud twristiaeth yn decach.
- Blwyddyn 9: Eglurwch sut y dylai penderfyniadau twristiaeth gynnwys lleisiau lleol a pham mae hyn yn bwysig mewn lleoedd fel Cymru a Lesotho.

Bywyd Gwledig

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Archwilio sut mae cymunedau gwledig yn newid dros amser a gwerthuso effaith pwysau economaidd a chymdeithasol.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i siapio hunaniaeth heddiw.

Dechrau Arni

Ysgogiad:
Beth sydd eu hangen ar bobl i fyw'n dda pob diwrnod? (Mae'r athro'n tawelu meddwl: Nid oes atebion cywir nac anghywir.)

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Enwch un peth mae pobl ei angen (e.e. bwyd, trafnidiaeth, ysgol, cymorth).
- Blwyddyn 8: Eglurwch pam fod y peth hwnnw'n bwysig ar gyfer bywyd o ddydd i ddydd.
- Blwyddyn 9: Eglurwch sut y gallai fod yn anoddach cael gafael ar y peth hwnnw mewn rhai lleoedd o'u cymharu ag eraill.

Gweithgaredd 1

Tasg:
Darllen neu wrando ar ddarnau byr am fywyd gwledig yng Nghymru a Lesotho. Mewn grwpiau, trafodwch un cwestiwn:

- Beth yw'r rhan anoddaf o fywyd bob dydd?
- Ym mhle mae pobl yn cael dweud eu barn?
- Beth sy'n teimlo'n debyg am y ddau le?

Defnyddiwch un manylyn o'r testun i gefnogi eich syniad.

Dilyniant

- B7: Dywedwch un peth mae'r testun yn ei ddangos.
- B8: Eglurwch pam ei fod yn bwysig.
- B9: Nodwch un tebygrwydd rhwng Cymru a Lesotho.

Gweithgaredd 2

Tasg
Darllenwch bob gweithred am fywyd gwledig. Defnyddiwch y fframwaith i farnu a yw'n gweithio gyda chymunedau gwledig neu'n penderfynu drostyn nhw. Fframwaith penderfyniadau: • llais • pŵer • effaith • cyfrifoldeb • perthyn

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Trefnwch bob gweithred fel GYDA neu AR RAN.
- Blwyddyn 8: Dewiswch un weithred ac esboniwch pa ffactor oedd bwysicaf (llais/pŵer/effaith ayyb.)
- Blwyddyn 9: Eglurwch sut mae'r weithred yn newid yr hyn sy'n bosibl mewn bywyd gwledig (mynediad, gwasanaethau, cyfleoedd) a p'un a yw'n cryfhau neu'n gwanhau llais pobl.

Adnodd 9 a 10, tud 28 a 29

Rural Life

Teaching Ideas

Amcan Dysgu:

Archwilio sut mae cymunedau gwledig yn newid dros amser a gwerthuso effaith pwysau economaidd a chymdeithasol.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i siapio hunaniaeth heddiw.

Gweithgaredd 4

Tasg

Mae disgyblion yn creu stribed comig 3- ffrâm yn dangos:

1. bore
2. teithio/gwaith
3. gyda'r nos

Mae pob ffrâm yn dangos ar beth mae bywyd yn dibynnu.

Dilyniant

- B4: Tynnwch luniau'r golygfeydd
- B5: Ychwanegwch pwy sy'n cymryd rhan
- B6: Caption: "Mae bywyd bob dydd yn gweithio oherwydd..."

Cerdyn Gorffen Meddwl am y Dyfodol

Ysgogiad:

Sut gall pobl gefnogi cymunedau gwledig mewn ffyrdd teg a pharchus yn y dyfodol?

- Blwyddyn 7: Enwch un ffordd y gall pobl weithio gyda'i gilydd i gefnogi bywyd gwledig.
- Blwyddyn 8: Eglurwch sut mae gwrando ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn gwneud cefnogaeth yn fwy teg.
- Blwyddyn 9: Eglurwch sut y dylai cefnogaeth i gymunedau gwledig yn y dyfodol amddiffyn llais, urddas a phrosesau gwneud penderfyniadau pobl.

Padlet

Padlet ar y cyd rhwng eich ysgol a dosbarth partner yn Lesotho. Defnyddiwch y **DDOLENK** I gael mynediad i'n padlet ac uwchlwytho lluniadau gyda neu heb gapsiwn byr neu fyfyrdod uwchlwytho neu nodyn llais.

Gall athrawon ddangos Padlet yr ysgol bartner i'r dosbarth, gan alluogi disgyblion i gyfnewid gwaith, rhannu syniadau a dysgu gan ei gilydd.

Cardiau Senario

Argraffwch y cardiau fflach ac mae'r disgyblion yn dangos A neu B i ddangos pa opsiwn y maent yn meddwl yw'r un mwyaf teg.





Senarios

Efallai bod bwriad da yn y ddauddewis. Canolbwyntiwch ar bwy sydd gan lais a mynediad.

Mae gwybodaeth ysgol bwysig yn cael ei rhannu.	A: Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn iaith glir, gyda chefnogaeth lle bo angen. B: Mae gwybodaeth mewn un iaith yn unig, hyd yn oed os yw rhai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd ei deall.
Mae disgybl yn siarad iaith arall yn y cartref.	A: Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn iaith glir, gyda chefnogaeth lle bo angen. B: Mae gwybodaeth mewn un iaith yn unig, hyd yn oed os yw rhai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd ei deall.
Mae disgybl newydd yn ymuno â'r dosbarth ac nid yw'n siarad llawer o Saesneg.	A: Mae cyd-ddisgyblion ac oedolion yn eu helpu i gymryd rhan wrth iddynt ddysgu. B: Mae disgwyl i'r disgybl ymdopi ar ei ben ei hun hyd nes bydd ei Saesneg yn gwella.
Mae disgyblion eisiau defnyddio eu hiaith gartref yn ystod amser egwyl neu waith grŵp.	A: Mae disgyblion yn cael defnyddio eu hiaith ac maent yn dal i gael eu cynnwys. B: Dywedir wrth ddisgyblion mai dim ond un iaith y gellir ei defnyddio yn yr ysgol.
Mae disgybl yn cael trafferth deall tasg oherwydd iaith.	A: Mae'r athro'n egluro mewn ffordd arall neu'n defnyddio delweddau. B: Dywedir wrth y disgybl y dylai ymdrechu'n galetach heb unrhyw gymorth ychwanegol.

CARDIAU TREFNU

Rights in action (Year 7)

CARDIAU TREFNU

Goddefgar

CARDIAU TREFNU

Cael Rhywun yn Gwrando

CARDIAU TREFNU

Cymryd Rhan

CARDIAU TREFNU

Perthyn

CARDIAU TREFNU

Mynediad at Wybodaeth

CARDIAU TREFNU

Pwy sy'n penderfynu

Adnodd 3

Ieithoedd

1. Mae gwybodaeth bwysig yn cael ei rhannu mewn iaith y gall y rhan fwyaf o bobl ei deall.
2. Mae penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy ddefnyddio un brif iaith, er bod llawer o bobl yn siarad ieithoedd eraill.
3. Mae pobl yn cael defnyddio eu hiaith gartref wrth egluro eu syniadau.
4. Mae ffurflenni, arwyddion neu gyfarwyddiadau yn anodd eu deall oni bai eich bod chi'n siarad iaith benodol yn dda.
5. Mae cyfarfodydd a gwersi yn cynnwys cyfieithu, cefnogaeth, neu amser i helpu pawb i gymryd rhan.
6. Mae disgwyl i bobl ffitio mewn drwy newid y ffordd maent yn siarad, yn hytrach na chael eu cefnogi.
7. Mae pobl yn teimlo'n hyderus yn siarad yn eu hacen neu mae eu hiaith yn cael ei pharchu.
8. Mae cyhoeddiadau pwysig yn cael eu rhannu mewn un iaith yn unig, hyd yn oed pan na fydd pawb yn ei deall.
9. Mae plant yn cael eu hannog i ddefnyddio'r iaith maen nhw â'r gafael gorau arni i egluro eu meddyliau.
10. Mae rhai lleisiau yn cael eu hanwybyddu oherwydd sut mae pobl yn siarad, nid yr hyn maent yn ei ddweud.

Trafodaeth Sefyllfa

Rhannwch eichmeddyliau ar y senarios canlynol ynseiliedig ar y wers.

Senario 1

Mae grŵp o boblifancynanhapus â rheolsy'neffeithio arnynt. Maent ynmynegi eupryderon i oedolion sy'ngyfrifol amdanynt. Mae'roedolion yngwrando ac ynegluro bod y rheolynrhan o system ehangach, felly maeunrhyw newidyncymryd amser ac maemwy nag un person ynpenderfynu.

Mae pobl yn penderfynu drostynt eu hunain	Mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ran pobl

Annibyniaeth

1 Gofynnir i bobl leol pa newidiadau maen nhw eu heisiau yn eu cymuned, ac mae eu barn yn llywio'r penderfyniad terfynol.

2 Mae penderfyniadau am ysgolion yn cael eu gwneud gan lywodraeth genedlaethol, gyda rheolau sy'n berthnasol i bawb, hyd yn oed os yw cymunedau lleol yn anghytuno.

3 Mae pobl ifanc yn cael eu gwahodd i rannu eu barn, ond oedolion sy'n gwneud y penderfyniad terfynol heb roi esboniad.

4 Mae cymunedau yn dilyn rheolau cenedlaethol, ond mae ganddynt rywfaint o reolaeth dros brosiectau a blaenoriaethau lleol.

5 Mae penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud gan arweinwyr oherwydd maent yn credu ei fod yn fwy effeithlon nac ymgynghori â phobl.

6 Mae pobl yn pleidleisio neu'n rhoi adborth i ddylanwadu ar benderfyniadau, er nad ydynt yn rheoli popeth eu hunain.

‘Y Deyrnas yn yr Awyr’.

“Eich pasbort i antur”.

“Dihangfa i baradwys naturiol,”

“Lle mae natur ac antur yn cydblethu,”

Dewch o hyd i’ch Antur

Twristiaeth

1 Mae hysbysebion twristaidd yn canolbwyntio ar dirweddau prydferth, ond mae pobl leol yn dweud nad eu bywydau o ddydd i ddydd a'u heriau ~~yn cael eu dangos yn aml iawn nac yn cael eu hesbonio.~~

2 Mae penderfyniadau ynghylch atyniadau newydd i ymwelwyr yn cael eu gwneud gan gyrff cenedlaethol neu ranbarthol, er mai cymunedau lleol fydd yn cael eu heffeithio ~~fwyaf.~~

3 Mae twristiaeth yn dod â gwaith i ardal, ond mae deiliaid nifer o'r swyddi sydd â'r cyflog gorau yn bobl nad ydynt yn byw yn lleol.

4 Mae ymwelwyr yn cael eu hannog i barchu'r diwylliant a'r traddodiadau lleol, ond mae'r rheolau yn cael eu hysgrifennu heb ofyn i bobl leol beth mae parch yn ei olygu iddyn nhw.

5 Mae twristiaeth yn helpu i ariannu gwasanaethau cyhoeddus fel trafnidiaeth a chyfleusterau, ond mae hefyd yn cynyddu'r pwysau ar dai ac adnoddau lleol.

6 Ymgynghorir â phobl leol ynghylch cynlluniau twristiaeth, ond nid yw eu barn bob amser yn newid y penderfyniad terfynol.

gweithio gyda chymunedau gwledig	Penderfynu ar eu rhan

Bywyd gwledig

1 Mae cynlluniau ar gyfer llwybr bws newydd yn cael eu gwneud ar ôl gofyn i drigolion gwledig ble a phryd maen nhw angen cludiant.

2 Mae gwasanaeth yn cael ei gau mewn ardal wledig oherwydd mae'n ddrud i'w redeg, heb siarad â'r bobl sy'n dibynnu arno.

3 Mae ffermwyr a theuluoedd lleol yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch sut mae tir a dŵr yn cael eu defnyddio yn eu hardal.

4 Mae rheolau ynghylch addysg neu fynediad at ofal iechyd yn cael eu gosod gan ddefnyddio modelau trefol, er bod pellteroedd gwledig yn llawer mwy.

5 Mae pobl leol yn helpu i ddylunio atebion i wella mynediad i'r rhyngrwyd neu ffôn mewn cymunedau gwledig.

6 Mae penderfyniadau am ddatblygu gwledig yn cael eu gwneud ymhell i ffwrdd, heb fawr o ddealltwriaeth o fywyd gwledig o ddydd i ddydd.

DOLENNI PELLACH

Podlediadau

Iaith Basotho a'r Iaith Gymraeg

Annibyniaeth Lesotho

Annibyniaeth Cymru

Iaith Basotho

Iaith Gymraeg

CYSYLLTWCH Â NI

Dolen Cymru

Dysgwch ragor am y bartneriaeth Cymru-Lesotho:

https://www.dolencymru.org

swyddfa@dolencymru.org

Taith

Dysgwch fwy am gyfleoedd dysgurhyngwladol:

https://www.taith.wales

Dolen LESOTHOCYMRU

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Taith

Dolen LESOTHO CYMRU

Taith

Dysgu ar y Cyd, Gwella ar y Cyd

Arolwg adborth

Mae'r adnodd hwnyncaeleiddatblygu drwybrofiadau cyffredin. Sganiwch i helpu i lywio'r rhifyn nesaf.